**<u>YMCHWILIAD CYHOEDDUS COVID-19 Y DEYRNAS UNEDIG</u>**

**O FLAEN Y FARWNES HEATHER HALLETT**
**YN Y MATER: YMCHWILIAD CYHOEDDUS I ARCHWILIO'R PANDEMIG COVID-19 YN Y DU**

---

**DATGANIAD AR RAN GRŴP 'TEULUOEDD MEWN PROFEDIGAETH COVID-19 ER MWYN CYFIAWNDER CYMRU' AR GYFER Y WRANDAWIAD RHAGARWEINIOL YN MODIWL 2(B)**
**AR 16 TACHWEDD 2023**

---

1. Dyma cyflwyniadau ar ran y grŵp 'Teuluoedd Mewn Profedigaeth COVID-19 Er Mwyn Cyfiawnder Cymru' ('CBFJ Cymru') cyn ail wrandawiad rhagarweiniol Modiwl 2b ('M2b') ar 16 Tachwedd 2023.

**<u>Ceisiadau Rheol 9</u>**

2. Mae CBFJ Cymru yn croesawu ceisiadau helaeth yr Ymchwiliad am dystiolaeth ynghlyn â Chymru. Dealldwriaeth CBFJ Cymru o'r diweddariadau a ddarparwyd ar gyfer gwrandawiad rhagarweiniol M2b ar 29 Mawrth 2023 yw bod ceisiadau Rheol 9 wedi'u hanfon at y sefydliadau canlynol i gwmpasu holl fodiwlau datganoledig M2: Age UK; Care England; National Care Forum and the Homecare Association. Mae CBFJ Cymru yn ailadrodd y pryder a godwyd yn y gwrandawiad rhagarweiniol ar 29 Mawrth 2023 ynglyn â sicrhau bod gan M2b ddigon o dystiolaeth Cymreig mewn perthynas â phobl hŷn o safbwynt elusennol / di-wladwriaeth.

3. Mae CBFJ Cymru yn ailadrodd ceisiadau a wnaethant yn y gwrandawiad rhagarweiniol blaenorol i geisiadau Rheol 9 cael eu hanfon at y sefydliadau a'r unigolion ganlynol sydd â thystiolaeth berthnasol i'w rhoi i'r Ymchwiliad yn M2b.

    a. Prof Adrian Edwards, Cyfarwyddwr Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru;
    b. Anabledd Cymru;
    c. Age Cymru;
    d. Cymdeithas Genedlaethol Trefnwyr Angladdau;
    e. Gethin Rhys, Swyddog Polisi (Senedd Cymru) yn Cytun;

f. Churches Together yn Cymru;

g. Dr Simon Williams (Prifysgol Abertawe), cynghorwyd at cyfarfod Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd (7 Hydref 2021) ar agweddau'r cyhoedd at y pandemig coronafeirws[1].

4. Yn ogystal, dylai geisiau Rheol 9 cael eu hanfon i'r cynghorwyr arbennig canlynol:[2] Alex Bevan; Dan Butler; Paul Griffiths; Sara Faye; Andre□ Johnson; Tom Wood□ard; Mitch Theaker; Gareth Williams; Madeleine Brindley; De□i Knight; Jonathan Scourfield Kate Edmunds; Ian Butler; Andy Pithouse; Mitchell Theaker.

**Datgeliad i Cyfranogwyr Craidd**

5. Mae CBFJ Cymru yn nodi bod yr Ymchwiliad yn gobeithio datgelu mwyafrif o'r holl ddatganiadau drafft i Gyfranogwyr Craidd erbyn diwedd Rhagfyr 2023 ac y bydd datgeliad dogfennol llawn erbyn dechrau 2024.[3] Mae CBFJ Cymru o'r farn bod yn rhaid cael datgeliad llawn o'r holl ddatganiadau a thystiolaeth sy'n cyffwrdd ag M2b erbyn diwedd Rhagfyr 2023 er mwyn caniatáu digon o amser paratoi. Mae'n anffodus iawn, 3 mis i ffwrdd o'r Ymchwiliad sy'n canolbwyntio'n benodol ar penderfyniadau craidd a chafodd ei wneud yng Nghymru, nad yw'r rhai sy'n galaru yng Nghymru wedi derbyn datgeliad llawn o hyd.

6. Mae CBFJ Cymru yn cydnabod bod yr Ymchwiliad yn cymryd pob cam i sicrhau datgeliad amserol. Fodd bynnag, unwaith eto mae'n ymddangos mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatgeliad hwyr. Mae hyn yn siomedig iawn i CBFJ Cymru. Ar ôl yr oedi druenus o ran datgelu gan Lywodraeth Cymru ym Modiwl 1, rhoddwyd sicrwydd i'r Cymry mewn profedigaeth, a'r Ymchwiliad, bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i'r Ymchwiliad hwn. Rhaid peidio ag anghofio bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod, yn gyson, galwadau am Ymchwiliad Cyhoeddus Cymreig. Yn y cyd-destun hwn, nid oes modd amddiffyn y methiannau datgelu hyn.

7. Rhaid i Lywodraeth Cymru esbonio'n gyhoeddus pam ei bod wedi gohirio datgelu i'r Ymchwiliad hwn yn M2B. Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd ymrwymo i gydymffurfio â'r holl derfynau amser a bennwyd gan yr Ymchwiliad. Fel y mae'n rhaid bod Llywodraeth Cymru yn ei ddeall, mae datgeliad hwyr yn rhwystro'r Cyfranogwyr Craidd rhag craffu'n effeithiol ar y dystiolaeth ac yn rhwystro gwaith yr Ymchwiliad hwn.

---

[1] business.senedd.wales/documents/s118281/Paper 3 Written evidence from Dr Simon Williams.html?CT=2&fbclid=IwAR1mfhKSV58SUhPeLc9K4Fm6nkT0CKg62o5-PZRQce44dXDFt7NOT-JvFmM & Dr Simon Williams - Swansea University

[2] Written Statement: Special Advisers (29 July 2021) | GOV.WALES :

[3] Para 24-25 of CTIs Note for the Third Preliminary Hearing in M2B for Thursday 16 November 2023

8. Mae'n amlwg o M2 bod nodiadau a negeseuon cyfoes rhwng gweision sifil, cynghorwyr arbennig, gwyddonwyr, a gwleidyddion (gan gynnwys negeseuon WhatsApp) wedi chwarae rhan allweddol i amlygu sut a pham cafodd penderfyniadau gwleidyddol a gweinyddol hanfodol eu wneud. Mae'r cyfathrebiadau hyn wedi datgelu hunanfodlonrwydd ysgytwol yn yr ymateb i'r pandemig ar lefel genedlaethol ynghyd ag agweddau truenus gan gynnwys at y Gweinyddiaethau Datganoledig.

9. Roedd CBFJ Cymru yn bryderus iawn i ddysgu o ddiweddariad yr Ymchwiliad ar 9 Hydref 2023 nad oedd unrhyw negeseuon WhatsApp, na negeseuon testun, wedi'u datgelu i'r Ymchwiliad gan Lywodraeth Cymru ar y dyddiad hwnnw. Fel y mae'r Ymchwiliad yn ei nodi, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i darparu deunydd hwn ym mis Mehefin 2023. Ymhell cyn y dyddiad hwn byddai wedi bod yn amlwg i Lywodraeth Cymru y byddai angen cadw'r deunydd hwn a'i ddatgelu i'r Ymchwiliad. Mae CBFJ Cymru yn deall mai dim ond rhai negeseuon WhatsApp sydd wedi'u datgelu a bod sawl tyst unigol o fewn Llywodraeth Cymru heb gadw negeseuon WhatsApp o'r cyfnod perthnasol.

10. Mae'n sioc i CBFJ Cymru bod cofnodion a negeseuon hollbwysig wedi'u dinistrio gan pobol gan bobl sy'n gweithio yn Llywodraeth Cymru. Dywedodd Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru, heddiw yng Nghwestiynau'r Prif Weinidog, er nad yw e wedi dileu unrhyw negeseuon, bod rhai aelodau o Lywodraeth Cymru efallai wedi dileu negeseuon; dim ond pan ddaeth yn ymwybodol y byddai'r Ymchwiliad am weld negeseuon WhatsApp y gorchmynnodd na ddylai unrhyw negeseuon gael ei ddileu. Mae Mark Drakeford wedi cael ei adrodd yn dweud, ymhlith pethau eraill:

> "*So I think what I don't want to say is that they were not some people working in the Welsh Government and working on Covid, who didn't have pre-existing arrangements, which continued after Covid began. But as soon as we were aware that the inquiry would be interested in material of that sort that was stored on phones, there was no move to delete it once we knew the inquiry would be taking an interest in it,….. ".s soon as we knew that inquiry wanted something, there's no deletion beyond that point. However, during the Covid period itself, many colleagues working for the Welsh Government will have had devices with deletion instructions already on them and those things may have remained on their phones, because at the point, nobody I think, absolutely nobody was focused on whether those messages might be required at some future distant point*."[4]

[4] https://www.walesonline.co.uk/news/politics/welsh-government-whatsapps-during-covid-28061559

11. Mae'n rhaid i'r Ymchwiliad, ac mae'n sicr y bydd, ymchwilio i mewn i’r ddinistr o deunydd sy'n berthnasol i'r Ymchwiliad. Mae CBFJ Cymru yn gofyn i'r Ymchwiliad ganfod a datgelu, fel mater o frys, yr holl ohebiaeth o fewn Llywodraeth Cymru (gan gynnwys oddi wrth Mark Drakeford) sydd yn sôn am ddiffyg dinistrio deunydd ar ffonau. Mae CBFJ Cymru hefyd yn gofyn i’r Ymchwiliad ganfod a roddwyd cyfarwyddiadau o fewn Llywodraeth Cymru ar unrhyw adeg cyn a/neu yn ystod y pandemig ar gadw dogfennau ac oedd unrhyw bolisi swyddogol neu answyddogol yn Llywodraeth Cymru yn ymwneud a ddileu WhatsApps a negeseuon erail ar unrhyw adeg, gan gynnwys defnyddio'r swyddogaeth autodelete.

12. Mae CBFJ Cymru yn nodi bod swyddfa’r ICO eisoes wedi rhybuddio swyddogion Llywodraeth y DU y bydd dileu negeseuon a allai ymwneud ag ymchwiliadau i bartïon honedig sy’n torri rheolau cyfnod clo yn 10 Stryd Downing, ac adrannau eraill, yn drosedd. Ymhellach, mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) yn gofyn am Gôd Ymarfer sy’n darparu fframwaith i awdurdodau cyhoeddus i reoli gwybodaeth a chofnodion ac i gydymffurfio â’u rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae’r Côd yn nodi’n glir y dylai cyrff cyhoeddus gadw gwybodaeth os oes ei hangen arnynt er mwyn cyfeirio ati neu lle y gallai Ymchwiliad Cyhoeddus cymryd lle.

13. Mae CBFJ Cymru yn parhau i fod yn bryderus iawn am y mater sy'n ymwneud â chadw negeseuon e-bost o fewn gwasanaeth e-bost Microsoft 365 GIG Cymru, sydd wedi arwain at y ddileu o gynnwys flychau e-bost defnyddwyr anactif. Mae CBFJ Cymru yn dal i fod yn arbennig o bryderus y gallai'r dileadau effeithio ar y canlynol: i) gallu unigolion a sefydliadau perthnasol i ymateb i unrhyw geisiadau Rheol 9; ii) ar allu tîm yr Ymchwiliad i ddatblygu ymhellach y rhestr o faterion i'w hystyried o fewn y cwmpas; ac iii) ar allu tîm yr Ymchwiliad a CP i gyflwyno materion perthnasol i dystion. Mae’n rhwystredig iawn bod hyn wedi cael ei ganiatáu i ddigwydd ac mae CBFJ Cymru yn nodi bod CTI yn bwriadu darparu diweddariad pellach yn y gwrandawiad ar 16 Tachwedd 2023.

14. Mae CBFJ Cymru yn cymeradwyo’r dynesiad cadarn a fabwysiadwyd gan yr Ymchwiliad o ran negeseuon WhatsApp Llywodraeth y DU ac yn gofyn am dynesiad cadarn tebyg o weithredu mewn perthynas â Llywodraeth Cymru.

15. Mae CBFJ Cymru hefyd yn ceisio eglurder ynghylch a yw ceisiadau datgelu’r Ymchwiliad ynghylch WhatsApp a llyfrau nodiadau yn ymestyn i gynghorwyr gwyddonol Cymru.

**Defnydd o arbenigwyr**

16. Mae CBFJ Cymru yn croesawu cyfarwyddyd yr Athro Daniel Wincott. Mae CBFJ Cymru yn nodi dibyniaeth yr Ymchwiliad ar rai adroddiadau arbenigol M2 mewn perthynas â Chymru a M2b. Mae CBFJ Cymru eisoes wedi nodi eu pryderon nad yw nifer o'r adroddiadau hyn yn ymdrin yn ddigonol â Chymru, yn aml naill ai oherwydd diffyg data hysbys i'r arbenigwyr hynny mewn perthynas â Chymru neu ddiffyg arbenigedd penodol i Gymru. Daeth y bylchau hyn yn amlwg o ran y dystiolaeth arbenigol yn M2 (gwelir isod). Mae CBFJ Cymru yn gofyn am eglurhad ynghylch pa gamau sy'n cael eu cymryd i lenwi'r bylchau yn y dystiolaeth (lle'n bosib) ac a fydd y mater rhannu data a gwmpesir gan Gavin Freegard mewn perthynas â San Steffan yn cael ei gwmpasu gan arbenigwr arall mewn perthynas â Chymru.

| Arbenigwr | Dyfyniad | Lle |
|---|---|---|
| Athraw Watson (Anableddau) | *I think that there's a huge variation. No one knows -- when this report came out, lots of people had been speculating as to why Wales has such a high figure. But no one really knows, because it could be age, it could be -- it will be a mixture of age, poverty and other -- industrial -- legacies of industrial injuries and things.* | Page 12 – Module 2 Day 5 |
| Athraw Watson (Anableddau) | *I think Wales have recently introduced a new system, but most -- I think it's fair to say that there are inadequacies in the provision of special educational needs for children across the country.* | Page 12 – Module 2 Day 5 |
| Athraw Laia Bécares (LGBTQ+) | *Q. It's correct to say that the situation with regard to data is even more limited with regard to both Northern Ireland and Wales; is that right?* | Page 77 – Module 2 Day 5 |

| | | |
|---|---|---|
| | *A. That's right, in particular Northern Ireland* | |
| Athraw Clare Wenham (Anghydraddoldebau Strwythurol a Rhyw) | *There is insufficient data to demonstrate a systematic difference between the way the different devolved administrations undertake impact assessments, although anecdotally there are different tendencies in the way the governments are going it.* | Page 116 – Module 2 Day 4 |
| Gavin Freeguard (Arbenigwr ar rannu data) | *Q. It's right at the outset to make it clear, as you do in your report, that your expertise in this field is very much focused on matters relating to Westminster government and institutions. So, as we know, we were addressing devolution matters yesterday, that covers matters relating to England and the UK, but you've explained in your report that your expertise doesn't really extend to similar matters within the devolved nations, Wales, Scotland and Northern Ireland?*<br><br>*A. That's right, I occasionally touch upon that in my report and think it's an extremely important topic, but my work has been focused on Westminster and Whitehall* | Page 138 – Module 2 Day 6 |

**Lleoliad**

17. Mae CBFJ Cymru eisoes wedi nodi eu pryder ynghylch lleoliad y canolfan gwrandawiad ar gyfer M2b (Mercure, Gogledd Caerdydd) a ystyrir yn anaddas gan ystyried nad yw wedi'i leoli'n ganolog ac nad yw'n hawdd ei gyrraedd ar gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus (mae un llwybr bws ond nid yw'r bws yn stopio tu allan i'r ganolfan). Mae CBFJ Cymru yn deall bod yr Ymchwiliad bellach wedi ymrwymo i'r lleoliad hwn ac felly mae CBFJ Cymru yn gofyn i'r Ymchwiliad ddod o hyd i ateb i hwyluso mynediad i'r lleoliad megis gwasanaeth gwennol wedi'i leoli'n agos at orsaf Caerdydd. Mae CBFJ Cymru yn awyddus i sicrhau bod cymaint â phosibl o'i aelodau yn gallu mynychu gwrandawiadau terfynol yn y modiwl hwn; yn enwedig gan mai dyma'r unig dro y disgwylir i dystiolaeth gael ei chlywed yng Nghymru. Mae cynrychiolydd cyfreithiol CBFJ Cymru yn cynnig gymorth i sicrhau bod teuluoedd mewn profedigaeth yng Nghymru yn gallu cael mynediad i'r gwrandawiad.

18. Fel y nodwyd uchod, mae CBFJ Cymru wedi'i arswydo bod Llywodraeth Cymru wedi caniatáu yn anamddiffynnol sefyllfa lle cafodd cyfathrebiadau perthnasol eu dinistrio a'u bod yn parhau i oedi cyn darparu datgeliad perthnasol i'r Ymchwiliad. Mae'n rhaid i ni gofio mae teuluoedd Cymreig sy'n galaru yw CBFJ Cymru, maent yn cyflwyno bod teuluoedd profedigaethus Cymru, ac yn wir holl Gymry, yn haeddu gwell ac, er gwaethaf eu galar, bydd CBFJ Cymru yn parhau i weithio'n ddiflino i gynorthwyo'r Ymchwiliad i ddeall beth ddigwyddodd a pha wersi sy'n rhaid eu dysgu. Mae CBFJ Cymru yn ddiolchgar am y cyfle i ddarparu'r cyflwyniadau byr hyn a fydd yn cael eu hategu gan cwnsler yn y Gwrandawiad Rhagarweiniol ar 16 Tachwedd. Mae CBFJ Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynorthwyo'r Tîm Ymchwilio ym mhob agwedd ar ei waith.

**Craig Court RLR**

**Harding Evans Solicitors**

**Bethan Harris**
**Kirsten Heaven**
**Nia Gowman**
**Laura Shepherd**
**Bargyfreithwyr**
**7 November 2023**